



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline
0808 80 10 800
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email


Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Ymgynghorwyr Achredu

Lleoliad: Hyblyg (Cymru/Hybrid – Teithio'n Ofynnol)

Cais am ddatganiadau o ddiddordeb.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn chwilio am ddiddordeb gan ymarferwyr profiadol ym maes trais yn erbyn menywod a merched i ymuno â'n cronfa o ymgynghorwyr i ddarparu asesiad cadarn o'n gwasanaethau aelodau fel rhan o'n Safonau Gwasanaeth Ansawdd Cenedlaethol.

Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rydym yn gweithio gyda goroeswyr a gwasanaethau arbenigol i atal pob math o drais yn erbyn menywod, a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol.

Mae ein haelodaeth yn cynnwys 20 o wasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru sydd, gyda'i gilydd, yn darparu rhwydwaith cenedlaethol o gymorth achub bywydau i oroeswyr camdriniaeth. Fel sefydliad ffeministaidd, mae'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n llywio ein gwaith yn parhau i fod yn seiliedig ar gydraddoldeb rhwng y rhywiau a chydaddoldeb rhyngadrannol, hawliau dynol a dim gwahaniaethu, gan ganolbwyntio ar rymuso, cydweithredu, uniondeb a rhagoriaeth.

Ynglŷn â NQSS

Mae Safonau Gwasanaeth Ansawdd Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn ffurfio cyfres o feini prawf achrededig lle gall gwasanaethau arbenigol penodol sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig ddangos tystiolaeth o'u hansawdd. Gan ymgorffori egwyddorion cyfranogiad, llywodraethu tryloyw, darpariaeth sy'n seiliedig ar anghenion, sy'n seiliedig ar gryfderau a thrawma, maen nhw'n nodi natur a safon y gwasanaethau sydd eu hangen i alluogi goroeswyr cam-drin domestig i ymdopi â'u profiadau o gam-drin ac adfer ohonynt.

Mae Safonau Cenedlaethol y Gwasanaeth Ansawdd hefyd yn cefnogi cyflwyno deddfwriaeth ac arweiniad allweddol wrth ymateb yn effeithiol i gam-drin domestig. Maen nhw wedi cael eu mapio yn erbyn, er enghraifft, canllawiau statudol Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 a'r fframwaith hyfforddiant cenedlaethol. Yn 2022, roedd Safonau Gwasanaeth Ansawdd Cenedlaethol Cymorth i Ferched Cymru yn cyd-fynd â Fframwaith Cyngor Gwybodaeth ac Ansawdd Llywodraeth Cymru, sy'n golygu y bydd gwasanaethau llwyddiannus yn derbyn y ddau achrediad ar yr un pryd.

Mae gwasanaethau'n cael eu hasesu yn erbyn 60 o safonau sy'n cwmpasu saith maes gwahanol:

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

1. Diogelwch, diogeledd ac urddas
2. Hawliau a mynediad
3. Iechyd corfforol ac emosiynol
4. Sefydlogrwydd, gwydnwch ac ymreolaeth
5. Plant a phobl ifanc
6. Arweinyddiaeth ac atal
7. Llywodraethu ac atebolrwydd

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am NQSS ar ein gwefan [yma](#), gan gynnwys [llawlyfr NQSS](#).

Y Broses Asesu

Mae cylchoedd achredu yn rhedeg ddwywaith y flwyddyn yn dibynnu ar gymhwysedd gwasanaethau, cyfanswm yr ymrwymiad amser cyffredinol sydd ei angen yw tua 4 wythnos o waith, a fydd yn digwydd dros gyfnod o nifer o fisoedd - fodd bynnag, gallai hyn amrywio yn dibynnu ar faint y gwasanaeth a chyfaint y dystiolaeth a gyflwynir. Bydd mwy o wybodaeth am hyn yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfweiliad.

Mae'r broses asesu Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol yn cynnwys:

- Hunanasesiad dogfennol gan y gwasanaeth sy'n gwneud y cais, lle bydd y gwasanaeth yn cyflwyno dystiolaeth yn erbyn pob un o'r 60 o safonau. Bydd hyn wedyn yn cael ei adolygu gan yr aseswr.
- Adolygiad thematig o ffeil achos
- Ymweliad safle â'r gwasanaeth lle bydd yr asesydd yn cynnal cyfweiliadau gyda'r bwrdd gwasanaethau, Prif Swyddog Gweithredol, rheolwyr, staff a defnyddwyr gwasanaeth ac yn ymweld â lleoliadau darparu gwasanaethau.
- Yna bydd yr aseswr yn defnyddio'r wybodaeth uchod i asesu'r gwasanaeth yn erbyn y safonau a chynhyrchu adroddiad yn crynhoi eu canfyddiadau sy'n mynd at banel NQSS i'w adolygu.
- Mae penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan banel yr NQSS a fynychir gan:
 - Yr asesydd, sydd yno i gyflwyno eu hadroddiad.
 - Prif Swyddog Gweithredol Cymorth i Ferched Cymru neu Uwch Reolwr arall
 - Ymddiriedolwr Cymorth i Ferched Cymru
 - Aelod o staff o sefydliad cysylltiedig fel Respect neu WAFE
 - Cynrychiolydd Goroewyr

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn chwilio am ymgynghorwyr gyda'r sgiliau a'r profiad canlynol:

Hanfodol:

- Profiad o weithio gyda a mewn sefydliadau yn y sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV).
- Gallu sefydlu a chynnal perthynas dda.
- Dealltwriaeth gref o'r gwasanaethau a ddarperir ac anghenion goroewyr.

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

- Sylw rhagorol i fanylion ac yn hynod o graff. Gallu adolygu dogfennau'n systematig i sefydlu cydymffurfiaeth â safonau ansawdd perthnasol
- Sgiliau cyfathrebu llafar rhagorol - Yn gallu arwain ymweliadau safle sy'n cynnwys cyfweliadau a grwpiau ffocws gyda gweithwyr proffesiynol allweddol a defnyddwyr gwasanaeth.
- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig rhagorol. Yn gallu drafftio adroddiadau sy'n rhoi gwybodaeth glir a rhesymeg dros benderfyniadau.
- Sgiliau trefnu a rheoli amser cryf.
- Dealltwriaeth drylwyr o'r GDPR a chyfrinachedd.
- Y gallu i gadw cofnodion cywir o wybodaeth a chynnydd cyfredol. Profiad o reoli eich llwyth gwaith eich hun heb gyfarwyddyd.
- Profiad gyda sicrhau ansawdd.
- Anfeirniadol, empathig ac yn canolbwyntio ar ddatrysiadau.
- Dealltwriaeth dda o'r heriau a wynebir gan wasanaethau cam-drin domestig arbenigol a chyfleoedd ar gyfer arfer da
- Yn rhannu ethos a gwerthoedd Cymorth i Ferched Cymru gan gynnwys ymrwymiad i natur groestoriadol.
- Amcan - Annibynnol ar wasanaethau arbenigol, partneriaethau a chyllidwyr yng Nghymru
- Dymunol:
- Profiad a/neu wybodaeth am brosesau achredu tebyg.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o bolisiau cenedlaethol a datganoledig mewn perthynas â VAWDASV.
- Profiad a/neu wybodaeth am arferion, rheolaeth a llywodraethu VAWDASV a arweinir gan ffeministiaeth.

Bydd ymgynghorwyr yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau ar sail amser cyfyngedig. Byddant yn cydlynu'n agos â Swyddogion Datblygu Gwasanaethau a'r Rheolwr Aelodaeth a Gwasanaethau yng Nghymorth i Ferched Cymru ac yn gweithio o fewn telerau cytundebau ymgynghori Cymorth i Ferched Cymru. Gellir cwblhau rhai agweddau o'r broses asesu o bell trwy dystiolaeth ysgrifenedig a chyfarfodydd Teams; fodd bynnag, bydd yn ofynnol i aseswyr deithio os bernir bod angen. Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn talu'r holl dreuliau a ysgwyddir yn unol â'n polisiau a'n gweithdrefnau.

Mae'r swydd hon yn agored i fenywod yn unig, gan gynnwys y rhai sydd â phrofiad byw o fod yn fenyw o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn unol ag Atodlen 9, Rhan 1**. Rydym ni'n gwerthfawrogi amrywiaeth ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau bod ein sefydliad yn lle cynhwysol i weithio. Rydym ni'n annog ceisiadau gan fenywod o bob cefndir a chymuned - bydd ymgeiswyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig eraill a phobl ag anabledd sy'n bodloni'r meini prawf gwaith hanfodol yn cael eu gwarantu cyfweliad.

Buddion:

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk

Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llinell Gymorth Live Fear
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

- Mynediad at hyfforddiant
- Mynediad at oruchwyliaeth cwnsela a chlinigol
- Mynediad i weithdai i esbonio'r broses achredu ac arfer da ar gyfer pob cam asesu.
- Y gyfradd safonol o £350 y dydd ynghyd ag unrhyw gostau teithio a llety rhesymol a gronwyd yn unol â pholisïau Cymorth i Ferched Cymru.

I gael gwybodaeth gefndirol am Cymorth i Ferched Cymru, gweler ein Hadroddiad Blynyddol, Cynllun Strategol a gwybodaeth bellach ar gael ar ein gwefan (www.welshwomensaid.org.uk).

Y Broses Ymgeisio:

Cyflwynwch lythyr mynegi diddordeb yn esbonio eich addasrwydd ar gyfer y rôl ac enghraifft o'ch gwaith a CV cyfredol gan gynnwys geirdaon at: recruitment@welshwomensaid.org.uk.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **26^{ain} Ebrill**

Cyfweliadau: **Wythnos cychwyn y 6^{ed} Fai (I'w gadarnhau)**

Tŷ Pendragon, Caxton Place | Pentwyn, Caerdydd | CF23 8XE

Ffôn: 02920 541551

info@welshwomensaid.org.uk | www.welshwomensaid.org.uk



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Elusen Gofrestredig: 1140962